Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Oak House**

**Cartref Preswyl Oak House**
**43-47**
**Heol Romilly**
**Caerdydd**
**CF5 1FJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

09/03/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Oak House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Oak House Care Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 32 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 19 Hydref 2021 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Ers yr arolygiad diwethaf, cafodd rheolwr a dirprwy reolwr newydd eu penodi; maent wedi gwneud newidiadau cadarnhaol yn y cartref. Dywedodd y staff wrthym fod y rheolwr yn gefnogol ac yn hawdd mynd ati. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn ei oruchwylio er mwyn sicrhau y caiff ansawdd a diogelwch y gwasanaeth eu hasesu a'u gwerthuso.

Roedd y bobl yn edrych yn gyfforddus ac fel pe baent yn cael gofal da. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hapus yn byw yn Oak House a bod y staff bob amser yn garedig ac yn ofalgar tuag atynt. Mae'r gwasanaeth yn gwerthfawrogi pwysigrwydd gweithgareddau a dywedodd y bobl wrthym fod ganddynt rywbeth i edrych ymlaen ato. Mae'r cynlluniau gofal yn adlewyrchu dymuniadau'r bobl ac mae gwelliannau'n cael eu gwneud er mwyn sicrhau y caiff hyn ei adlewyrchu mewn adolygiadau rheolaidd. Caiff dewisiadau'r bobl eu gwerthfawrogi gan dîm o staff parchus. Mae morâl y staff wedi gwella ac mae'r tîm yn gweithio mewn modd mwy cydlynol. Mae'r staff yn wybodus ac maent yn ymateb i anghenion gofal a chymorth y bobl.  Caiff y staff eu recriwtio'n ddiogel i raddau helaeth, ond mae angen gwneud rhai gwelliannau.

Ers yr arolygiad diwethaf, gwnaed llawer o welliannau i'r amgylchedd, y mae'r bobl yn cael budd ohonynt. Mae'r cartref yn oleuach ac yn gartrefol. Mae rhaglen adnewyddu barhaus ar waith.

## Llesiant

Mae gan y bobl cymaint â phosibl o reolaeth dros eu bywydau. Mae'r bobl yn gwneud dewisiadau o ddydd i ddydd fel sut i dreulio eu hamser drwy gydol y dydd. Mae'r staff yn deall gwerth ymgysylltu cadarnhaol mewn perthynas â llesiant y bobl a'u hymdeimlad o hunan-werth. Mae'r bobl yn cael cyfle i leisio eu barn, a gwrandewir arnynt. Ymgynghorwyd â'r bobl ynghylch cynlluniau lliw wrth wneud gwaith i ailaddurno'r cartref yn ddiweddar. Mae cofnodion cyfarfodydd yn dangos bod dewisiadau a dymuniadau'r bobl yn cael eu hystyried. Gwelsom y tîm rheoli yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i berthnasau am newidiadau er mwyn iddynt deimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y trefniadau gofal. Caiff cynlluniau personol y bobl eu hadolygu'n rheolaidd, ond prin oedd y dystiolaeth a welsom i ddangos bod unrhyw drafodaeth wedi'i chynnal â'r unigolion na'u perthnasau. Fodd bynnag, roedd camau ar waith i ymdrin â hyn.

Mae'r bobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau personol yn nodi anghenion gofal a chymorth yr unigolyn a'r ffordd orau i'w diwallu. Mae'r bobl yn cael eu meddyginiaeth ar yr adeg gywir. Gellir cael gafael ar weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn hawdd pan fo angen. Mae'r staff yn ofalgar, yn wybodus ac yn ymateb i anghenion y bobl. Mae gan ddarparwr y gwasanaeth brosesau sicrhau ansawdd ar waith i adolygu'r gwasanaeth a ddarperir ac i gasglu adborth gan y bobl, eu perthnasau a'r staff, er mwyn llywio gwelliannau i'r gwasanaeth.

Mae'r ffordd y caiff y staff eu dyrannu ar hyn o bryd a'r morâl uchel ymhlith y gweithwyr gofal yn cyfrannu at lesiant y bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn uchel eu cymhelliant ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r gweithlu cyson yn sicrhau parhad gofal i'r bobl. Ceir awyrgylch tawel a threfnus yn y gwasanaeth, ynghyd â rhyngweithio cyfeillgar a chefnogol.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Caiff damweiniau a digwyddiadau eu monitro'n agos a gwelsom fod camau priodol yn cael eu cymryd i ddiogelu'r bobl. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl ac maent yn cael gwybodaeth am sut i gefnogi unigolion cyn iddynt symud i Oak House. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant mewn perthynas â diogelu oedolion sy'n wynebu risg ac maent yn deall eu rôl o ran diogelu'r bobl. Mae angen diweddaru'r polisi diogelu sydd ar waith i gynnwys Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Dilynir y rhan fwyaf o'r prosesau recriwtio staff ond mae angen atgyfnerthu hyn er mwyn amddiffyn y bobl agored i niwed sy'n byw yn y gwasanaeth yn well.

Mae'r ardaloedd byw yn cefnogi llesiant y bobl. Prynwyd dodrefn a ffabrigau newydd ar gyfer yr ardaloedd cymunedol a rhai o'r ystafelloedd gwely. Gosodwyd ardal patio yn yr iard y tu allan ac mae'r bobl yn edrych ymlaen at fwynhau'r ardal hon. Fodd bynnag, mae angen

rhoi sylw i'r ardd er mwyn gwneud yr ardal yn fwy deniadol. Mae rhaglen ailaddurno ac adnewyddu ar waith. Mae trefniadau gwasanaethu a chynnal a chadw rheolaidd ar waith er mwyn sicrhau bod y bobl yn byw mewn amgylchedd diogel sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

## Gofal a Chymorth

Mae'r gwasanaeth yn gwerthfawrogi cyfranogiad y bobl ac mae eu lleisiau'n cael eu clywed. Mae'r bobl yn cyfrannu at y gwaith o redeg y cartref drwy fynegi eu barn mewn cyfarfodydd a gynhelir yn rheolaidd. Roedd rhai o'r sylwadau yn cynnwys,*"I like the food and have no concerns"* ,*"I think the redecoration of the home is very nice"* a *"Staff are brilliant".* Ar adeg yr arolygiad, roedd holiaduron wedi cael eu rhoi i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r staff;  mae'r wybodaeth a gasglwyd ohonynt wrthi'n cael ei hadolygu. Mae adborth yn bwysig gan ei fod yn helpu i lywio'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae'r bobl yn cael budd o weithgareddau rheolaidd yn y cartref ac maent yn gwneud pethau y maent yn mwynhau eu gwneud. Mae dau gydgysylltydd gweithgareddau ar gael saith diwrnod yr wythnos. Gwelsom y bobl yn mwynhau cwis a sesiwn cydganu, gyda llawer o sgwrsio a chwerthin. Dywedodd y bobl wrthym fod ganddynt rywbeth i edrych ymlaen ato. Caiff gweithgareddau amrywiol eu cynllunio er mwyn bodloni dewisiadau a diddordebau'r bobl. Caiff llawer o luniau eu tynnu a'u harddangos yn y cartref er mwyn i'r bobl a'u perthnasau eu gweld, sy'n cynnig pwyntiau diddorol i'w trafod.

Mae'r bobl yn cael cymorth gan staff sy'n eu hadnabod yn dda. Ceir tîm cyson o staff sy'n cynnig parhad gofal a chymorth i'r bobl. Gwelsom fod y staff yn sylwgar ac yn ymateb i'r bobl. Wrth sôn am y staff, dywedodd y bobl *"They are lovely"* a "*The staff are caring and kind".* Mae gan y staff y gwnaethom siarad â nhw wybodaeth dda am y bobl yn y cartref ac maent yn awyddus i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl.

Rhoddir cyfle i'r bobl rannu eu barn am y cymorth yr hoffent ei gael a'u dewisiadau cyn iddynt symud i fyw yn y cartref. Defnyddir y wybodaeth hon i lunio cynlluniau personol sy'n nodi anghenion gofal a chymorth pob unigolyn a'r ffordd orau o'u diwallu. Gwelsom fod diffyg manylder yn ambell un o'r cynlluniau gofal, a chawsom sicrwydd gan y rheolwr y byddai'n ymdrin â hyn. Dengys cofnodion gofal dyddiol fod y staff yn darparu'r cymorth cywir i gyflawni canlyniadau personol y bobl yn gyson. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol pan fo angen. Mae'r bobl wedi'u cofrestru â meddyg teulu lleol, a threfnir ymweliadau rheolaidd. Cynhelir adolygiadau rheolaidd o'r cynlluniau gofal, ond dylai'r bobl gael y cyfle i gyfrannu at y broses hon.

Mae'r bobl yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion iechyd. Caiff meddyginiaeth ei rhoi gan staff hyfforddedig ac mae systemau ar waith i archwilio'r trefniadau hyn. Mae gwelliannau yn cael eu gwneud i gofnodi effeithiolrwydd meddyginiaeth a ragnodir i'w rhoi "pan fo angen". Ceir cyfleoedd cymdeithasol hyfryd ac amgylchedd cadarnhaol adeg prydau bwyd, sy'n helpu i sicrhau bod y bobl yn cynnal lefelau maeth da. Caiff anghenion maeth y bobl eu monitro a'u diwallu. Dyfarnwyd sgôr ‘Da’ i'r cartref gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ddiweddar.

## Yr Amgylchedd

Ers yr arolygiad diwethaf, mae rhai rhannau o'r cartref wedi cael eu hailwampio ac mae cynllun adnewyddu parhaus ar waith. Mae'r coridorau a'r ardaloedd cymunedol wedi'u haddurno'n hyfryd â ffabrigau a dodrefn newydd.  Ymgynghorwyd â'r bobl ynghylch y cynlluniau lliw cyn ailaddurno rhai o'r ystafelloedd gwely. Mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u personoli yn unol â'u chwaeth a chan ddefnyddio eitemau sy'n bwysig iddynt. Mae'r ystafelloedd ymolchi cymunedol a'r ystafelloedd gwlyb yn lân ac yn daclus, ac yn cynnwys cyfarpar da. Gosodwyd patio yn yr iard yn ddiweddar ynghyd â nodwedd ddŵr i'r bobl eistedd a'i mwynhau. Mae'r cartref bellach yn groesawgar, yn oleuach ac yn fwy cartrefol.

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint. Mae'r staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol a gwelsom fod y cyfarpar hwn yn cael ei waredu'n briodol. Mae digon o gyfarpar diogelu personol ar gael ym mhob rhan o'r cartref. Mae trefniadau ar waith ar gyfer gwastraff clinigol. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar reoli heintiau. Mae amserlenni glanhau ar waith ac mae pob rhan o'r cartref yn lân.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd diogel sy'n eu hamddiffyn rhag niwed. Caiff peryglon a fyddai'n peri risg i'r bobl eu rheoli'n dda. Caiff cyfleusterau a chyfarpar eu gwasanaethu'n rheolaidd. Mae gweithiwr cynnal a chadw wedi'i gyflogi yn y cartref a chaiff yr holl wiriadau rheolaidd eu cynnal mewn modd amserol er mwyn sicrhau bod trefniadau goruchwylio da ar waith mewn perthynas â gwaith atgyweirio a'r adeilad.

Mae gan y bobl sy'n byw yn y cartref gynllun personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng, sy'n bwysig er mwyn i'r staff wybod pa gymorth sydd ei angen ar unigolyn er mwyn gadael yr adeilad yn ddiogel. Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân ac maent yn deall eu rôl. Cynhelir ymarferion tân rheolaidd ond dylid eu trefnu'n amlach pan gaiff materion eu nodi er mwyn sicrhau bod y staff yn deall y weithdrefn ar gyfer gwagio'r adeilad yn llawn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y gwasanaeth ei redeg yn ddidrafferth gan reolwr cymharol newydd. Gwnaed nifer o newidiadau cadarnhaol a fu o fudd i'r bobl a'r staff ers iddi gael ei phenodi ym mis Mai 2022. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, ac yn dweud wrthym *“The manager has a big heart and people are her focus".* Dywedodd y staff fod y rheolwr yn *“Exceptional and takes the time to listen to us” a “They will help us when needed and will always look at ways to resolve issues”.* Cynhelir cyfarfodydd tîm ac mae'r rhain yn gyfle i'r staff gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y gwasanaeth. Gwelsom fod y staff yn cael sesiynau goruchwylio a hyfforddiant parhaus, a bod trefniadau ar y gweill i ymdrin â rhai meysydd lle na roddwyd hyfforddiant eto.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n dda, ac mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn cydweithio'n dda er budd y bobl sy'n byw yn Oak House. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd a dengys adroddiadau yr ymgynghorir â'r bobl ac y cynhelir adolygiadau cynhwysfawr o ansawdd a diogelwch y gwasanaeth. Mae archwiliadau rheolaidd ar waith i werthuso'r materion sy'n effeithio ar y gwasanaeth, a dywedodd y rheolwr wrthym y caiff unrhyw wersi a ddysgwyd eu cynnwys. Mae'r adroddiad ar ansawdd y gofal yn fanwl ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir, ond rhaid iddo gynnwys dadansoddiad o wybodaeth er mwyn nodi unrhyw batrymau/tueddiadau a'r gwersi a ddysgwyd. Dengys yr adroddiadau fod dewisiadau'r bobl yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl eu bod yn cael cymorth gan staff wedi'u recriwtio'n ddiogel, ond mae angen gwneud rhai gwelliannau. Gwelsom fod prosesau recriwtio ar waith i sicrhau y caiff yr holl wiriadau cyn cyflogi eu cynnal cyn i aelodau newydd o staff ddechrau eu swydd. Fodd bynnag, gwelsom ambell i enghraifft lle nad oedd y gwiriadau cyn cyflogi wedi'u cwblhau'n llawn. Mae'r gwiriadau hyn yn bwysig gan eu bod yn pennu a yw unigolyn yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed.  Rhoddodd y rheolwr sicrwydd i ni y byddai'n mynd i'r afael â hyn. Mae gan bob aelod o'r staff wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i dangos ei fod yn addas i weithio gydag oedolion agored i niwed.  Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Cyhyd ag y bo'n bosibl, mae'r darparwr yn cymryd camau priodol i ddiogelu'r bobl rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Mae lefelau staffio digonol ar waith i ddiwallu anghenion gofal y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael digon o amser i gefnogi'r bobl yn briodol. Mae'r staff yn ymateb i geisiadau gan y bobl yn amserol, ac mae'r rhyngweithio yn gyfeillgar, yn barchus ac yn bwyllog. Caiff y bobl eu cefnogi gan staff sy'n eu hadnabod yn dda. Dywed y bobl eu bod yn teimlo'n ddiogel a bod y tîm o staff

yn cynnal eu preifatrwydd ac yn diogelu gwybodaeth bersonol bob amser. Mae polisi diogelu cyfredol ar waith i'r staff ei ddilyn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 35 | Rhaid dilyn prosesau recriwtio staff diogel er mwyn amddiffyn y bobl rhag niwed. | Newydd |
| 36 | Rhaid i'r staff gofal gael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol. Rhaid i'r staff gofal gael hyfforddiant i ddeall anghenion penodol y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt. | Adolygwyd |
| 15 | Rhaid i'r cynlluniau personol gael eu teilwra at anghenion gofal a chymorth yr unigolyn a rhaid iddynt nodi'r risgiau cysylltiedig. | Cyflawnwyd |
| 16 | Rhaid i'r bobl neu eu cynrychiolwyr gael y cyfle i gyfrannu at eu cyfarfod adolygu o leiaf bob tri mis. | Cyflawnwyd |
| 21 | Rhaid gwella'r ffordd y caiff digwyddiadau a damweiniau eu rheoli er mwyn sicrhau y caiff pob cofnod gofal ei adolygu a'i ddiweddaru i adlewyrchu'r newid yn anghenion yr unigolyn. Rhaid sicrhau y caiff y camau priodol eu cymryd i ddiogelu llesiant unigolion. | Cyflawnwyd |
| 58 | Rhaid sicrhau y cynhelir archwiliadau rheolaidd o'r trefniadau ar gyfer storio a rheoli meddyginiaethau yn y cartref. | Cyflawnwyd |
| 78 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol roi systemau effeithiol ar waith ar gyfer sicrhau bod y cofnodion gofal yn gywir ac yn gyflawn. | Cyflawnwyd |
| 79 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol roi trefniadau addas ar waith i sicrhau y caiff polisïau a gweithdrefnau eu diweddaru'n rheolaidd – er enghraifft y polisi meddyginiaeth, diogelu, rheoli heintiau a'r weithdrefn cwympiadau. | Cyflawnwyd |
| 80 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol ddadansoddi gwybodaeth allweddol yn gyson i nodi patrymau a thueddiadau, er mwyn sicrhau y caiff y camau priodol eu cymryd – er enghraifft: digwyddiadau a damweiniau, diogelu, system cynllunio gofal, clychau galw a'r trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn y cartref. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 13/04/2023